OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 3012 (Cy 284) (C.96)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Deddf Diwygio Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 1, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) 2002

Wedi'i wneud - - 4 Rhagfyr 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 181 o Ddeddf Diwygio Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002(**1**) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn Gorchymyn Deddf Diwygio Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 1, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2002.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1967" ("*the 1967 Act*") yw Deddf Diwygio Lesddaliad 1967(**2**);

ystyr "Deddf 1993" ("*the 1993 Act*") yw Deddf Diwygio Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993(**3**);

ystyr "y dyddiad cychwyn" ("*the commencement date*") yw 1 Ionawr 2003; ac

mae cyfeiriadau at adrannau ac atodlenni, oni nodir yn wahanol, yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Diwygio Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002 ac at Atodlenni iddi.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

Darpariaethau sy'n dod i rym ar y dyddiad cychwyn

2. Bydd y darpariaethau canlynol yn Neddf Diwygio Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002 dod i rym ar y dyddiad cychwyn—

(a) adrannau 114, 129, 132, 133, 137 a 142;

(b) yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol ac arbedion yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn—

(**1**) 2002 p.15. Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru arfer y pŵer o dan yr adran hon ynghylch Cymru yn unig- *gweler* adran 181(4)(b) o Ddeddf Diwygio Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002.
(**2**) 1967 p.88.
(**3**) 1993 p.28.

(i) adrannau 115 i 120, 125, 127, 128, 130, 131, 134 i 136, 138 i 141, 143 i 147, 160 i 162; a

(ii) adran 180 i'r graddau y mae'n berthnasol i'r diddymiadau hynny yn Atodlen 14 a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;

(c) adrannau 74, 78, 80, 84, 92, 110, 122, 151 to 153, 156, 164, 166, 167, 171, 174 ac Atodlen 12, i'r graddau y maent yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

4 Rhagfyr 2002

(**4**) 1998 p.38.

ATODLEN 1 Erthygl 2(b)(ii)

DIDDYMIADAU

RHAN 1

Pennod	*Teitl Byr*	*Cwmpas y Diddymiad*
1993 p.28	Deddf Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993	Yn adran 5— yn is-adran (1), y geiriau "which is at a low rent or for a particularly long term", ac yn is-adran (2)(c), y geiriau "at a low rent for a particularly long term". Adran 6. Yn adran 7(3), y geiriau "at a low rent". Adran 8. Adran 8A. Yn adran 10— is-adrannau (2), (3) a (4A), a yn is-adran (6), y diffiniad o "qualifying tenant". Yn adran 13— yn is-adran (2), is-baragraff (i) o baragraff (b) a'r geiriau sy'n dilyn y paragraff hwnnw, ac yn is-adran (3)(e), y geiriau "the following particulars", y gair "namely" ac is-baragraffau (ii) a (iii).
1996 p.52	Deddf Tai 1996	Adran 105(3). Adran 111. Yn Atodlen 9, paragraff 3 ac is-baragraffau 5(2) a (3). Yn Atodlen 10, paragraff 4.

RHAN 2

Pennod	*Teitl Byr*	*Cwmpas y Diddymiad*
1993 p.28	Deddf Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993	Yn adran 39— yn is-adran (2), paragraff (b) a'r gair "and" o'i flaen, is-adrannau (2A) a (2B), is-adran nau (3)(c) a (d), ac is-adrannau (4A) a (5). Adran 42(3)(b)(iii) a (iv) a (4). Yn adran 45(5), y geiriau "and (b)". Adran 62(4). yn adran 94— yn is-adrannau (3) a (4), y geiriau "which is at a low rent or for a particularly long term", yn is-adran (12), y geiriau "which is at a low rent or for a particularly long term" a'r geiriau ", 8 and 8A". Yn Atodlen 13, ym mharagraff 1, y diffiniad o "the valuation date".
1996 p.52	Deddf Tai 1996	Adran 112. Yn Atodlen 9, paragraff 4.

RHAN 3

Pennod	*Teitl Byr*	*Cwmpas y Diddymiad*
1967 p.88	Deddf Diwygio Lesddaliad 1967	Yn adran 1— yn is-adran (1), y geiriau ", occupying the house as his residence," a'r geiriau ", and occupying as his residence,", is-adran (2), a yn is-adran (3)(a) y geiriau "and occupied by".